WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2018

Hysbysiad Preifatrwydd Digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych am y ffordd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth a gesglir amdanoch pan fyddwch yn cofrestru a/neu'n dod i un o ddigwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru fel cyfranogwr, hwyluswr neu gyfranwr. Gall digwyddiadau gynnwys cynadleddau, digwyddiadau ymgysylltu neu gyfarfodydd a digwyddiadau eraill.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau sy'n galluogi iddo ymgymryd â'i waith.

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu eich data personol wrth ddarparu gwasanaethau o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Beth y byddwn yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych er mwyn i ni allu cynllunio a rheoli ein digwyddiadau ac ar ôl hynny, er mwyn hwyluso ac annog cyfranogwyr a chyfranwyr i rannu gwybodaeth ac arfer gorau.

Bydd yr Adran Gyfathrebu a, lle y bo angen, aelodau eraill o staff o Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu gweld y wybodaeth a ddarperir gennych. Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth am gyfranogwyr gyda chyfranwyr a hwyluswyr cyn y digwyddiad er mwyn helpu i gynllunio'r digwyddiad a chynnwys y digwyddiad. Mae'n bosibl y byddwn yn cynnwys enwau a sefydliadau cyfranogwyr fel rhan o'r pecyn i gyfranogwyr ar gyfer y digwyddiad.

Ar ôl y digwyddiad, byddwn yn cysylltu â chi i gynnal arolwg ôl-ddigwyddiad ac mae'n bosibl y byddwn yn rhannu rhestr o'r cyfranogwyr (gan gynnwys enw, rôl, sefydliad a chyfeiriad e-bost) er mwyn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ac adnoddau. **Os nad ydych am gael eich cynnwys ar y rhestr hon, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn diwedd y digwyddiad.** Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi dros yr e-bost er mwyn rhoi gwybod i chi am ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Byddwn yn cadw eich data personol am y cyfnodau a ddynodir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion a byddwn yn cadw eich data yn ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Ffotograffau, Recordio a Fideos

Mae'n bosibl y byddwn yn recordio a/neu'n gwneud fideo o areithiau, cyflwyniadau a rhai trafodaethau ac wedi hynny, yn cyhoeddi'r recordiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, ein sianel YouTube a chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfryngau cymdeithasol, megis Facebook, Twitter a LinkedIn. Mae'n bosibl y bydd llefarwyr hefyd yn rhannu'r fideos gyda'u sefydliadau a'u cysylltiadau.

Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn tynnu ffotograffau y gellir eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ac ar gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfryngau cymdeithasol, megis Facebook, Twitter a LinkedIn.

Os ydych yn dod i ddigwyddiad, yn llefaru neu'n cyflwyno mewn digwyddiad ac nad ydych am i ni dynnu ffotograffau ohonoch neu eich recordio, rhaid i chi ein hysbysu'n ysgrifenedig cyn y digwyddiad.

Eich hawliau

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych hawliau i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a ddelir amdanoch ac i wrthwynebu achos o brosesu data sy'n achosi niwed a gofid sylweddol a diangen.

Er mwyn cael copi o'r wybodaeth bersonol a ddelir gennym amdanoch neu er mwyn trafod unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon, ysgrifennwch at Y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu anfonwch e-bost i swyddoggwybodaeth@archwilio.cymru.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am eich hawliau o dan y gyfraith diogelu data neu os hoffech gwyno am y ffordd rydym yn ymdrin â'ch data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF, neu drwy anfon e-bost i casework@ico.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 01625 545745.